**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Lun 17 Ionawr 2022.**

**Presennol:** Cynghorydd Dyfed Williams – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, Sharon Parry ac Einir Thomas.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc)

Gofynnodd y Cadeirydd am funud o dawelwch er y cof am y Cynghorydd Beryl Salisbury a fu farw ar y 29ain o Dachwedd. Hefyd mynegwyd cydymdeimlad at y Cadeirydd am iddo golli ei fam.

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Lowri Owen a William Victor Owen.

**2. Datganiad o ddiddordeb –** Cyng. Gordon Owen yn datgan diddordeb rhagfarnol yn eitem. 7.2 cais cynllunio HHP/2021/362, fe adawodd y cyfarfod am yr eitem heb gymryd rhan o gwbl yn y drafodaeth.

**3. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol -** Derbyniwyd fod cofnodion 16 Tachwedd 2021 yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. G. O. Jones)

**4. Materion yn codi o’r cofnodion**

4.1 Cae Chwarae: Dim byd pellach i'w adrodd am yr offer a addawyd gan Kenton Jones Ltd. Roedd Cyng. Celfyn Furlong a Gwilym Jones wedi tynnu’r fainc a oedd y tu hwnt i’w thrin ac fe drwsiodd Cyng. Furlong y llall. Roeddent hefyd wedi gosod bwrdd picnic plastig wedi'i ailgylchu yno. Diolchwyd i’r ddau am eu hymdrechion. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ceisio cael ymrwymiad cadarn gan y contractwr am y gwaith atgyweirio ar yr arwynebau diogelwch.

.2 Llwybrau - Byddai'r clerc yn gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer y gwaith torri llwybrau erbyn y mis nesaf.

4.3 Hysbysfwrdd – byddai'r clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am ddiweddariad ar y cais am ganiatâd i osod hysbysfwrdd wrth yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn.

4.4 Materion parcio Caergeiliog – Dim byd pellach i’w adrodd.

4.5 Gwasanaeth Bysiau Llanfihangel Yn Nhowyn – Byddai mwy o wybodaeth pan gyhoeddir yr amserlenni newydd yn ddiweddarach yn y mis.

4.6 Unrhyw fater arall yn codi o’r cofnodion - dim.

**5. Materion Plwyfol - dim**

**6. Penderfyniadau Cynllunio**

6.1 HHP/2021/321 Heather Bank, Fali - caniatâd.



Arwyddwyd ………………………………………Cadeirydd.

6.2 HHP/2021/212 2 Pendref, Caergeiliog - caniatâd.

6.3 FPL/2021/255 - Craig Eithin, Caergeiliog - caniatâd.

6.4 HHP/2021/317 Trewan House, Bryngwran, Caergybi – caniatâd.

6.5 HHP/2021/149 Plas Llanfair, Llanfair yn Neubwll - caniatâd.

**7. Ceisiadau Cynllunio**

7.1 **HHP/2021/391 Cerrig Cynrig, Hunters Rise, Caergeiliog.**
Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu **–** dim gwrthwynebiad ond roedd angen tynnu sylw at y llwybr cyhoeddus.

7.2 **HHP/2021/362 Croeso, Caergeiliog**
Cais llawn ar gyfer codi sied storio **–** dim gwrthwynebiad.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb rhagfarnol gan Cyng. Gordon Owen, fe adawodd y cyfarfod heb gymryd rhan o gwbl yn y drafodaeth.

**8. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.11. 2021 i 31.12.2021 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £26,939.80, Cyfrif Cadw £3,939.07.

8.1 **Praesept 2022/23**
Cafwyd trafodaeth fanwl am ragolygon o'r cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2022, y gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r cronfeydd wrth gefn disgwyliedig ar 31 Mawrth 2022. Cytunwyd i ofyn am praesept o £17,000 ar gyfer 2022/23.

**9. Taliadau i'w gwneud :** Cytunwyd i dalu y rhain

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog mis Tachwedd / Rhagfyr | £487.22 | Archwilio Cae Chwarae | £45.36 |
| | | | |

**10. Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

10.1 Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr – adolygiad o dystiolaeth ar agweddau'r cyhoedd

10.2 Ymgynhgoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

10.3 Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon (Un Llais Cymru) - 7y.h. 20 Ionawr 2022

10.4 Sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru.

10.5 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref - Dyddiad cau'r ymgynghoriad – 17. 3.2022



Arwyddwyd ……………………………………………Cadeirydd.

10.6 Cyflwyno’r Bil Deddfau Trethi Cymru (Pŵer i Addasu)

**11. Adroddiadau Aelodau**

Hysbysodd Cyng. Sharon Parry’r aelodau fod Plas Llanfair wedi trefnu ‘Beach Clean’ ar 12 Mawrth 2022.

**12. Cyfarfod Nesaf - 15 Chwefror 2022**



Arwyddwyd …………………………………………Cadeirydd.